MOTT MACDONALD

# Mapio Rhanddeiliaid Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

## Adroddiad Terfynol

23 Awst 2021

Mott MacDonald
2 Sgwâr Callaghan
Caerdydd CF10 5BT
Y Deyrnas Unedig

T +44 (0)29 2046 7800

mottmac.com

Llywodraeth Cymru

# Mapio Rhanddeiliaid Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

Adroddiad Terfynol

23 Awst 2021

Mott MacDonald Limited. Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr. 1243967. Swyddfa gofrestredig: Mott MacDonald House, 8-10 Sydenham Road, Croydon CR0 2EE, United Kingdom

# Cofnod Cyhoeddi a Diwygio

| Diwygio | Dyddiad | Awdur | Gwiriwr | Cymeradwywr | Disgrifiad |
|---|---|---|---|---|---|
| A | 13.3.2020 | H. Ashworth<br>C. Simpson<br>R. Monckton | H. Ashworth | S.Power | Drafft cyntaf ar gyfer cleient |
| B | 26.3.2020 | C. Simpson<br>R. Monckton | H. Ashworth | S.Power | Cyflwyniad terfynol |
| 415222 \| 1 \| C | 23.8.2021 | R. Monckton | H. Ashworth | S.Power | Cyflwyniad terfynol – yn dilyn esboniadau |

**Cyfeirnod y ddogfen:** 415222 | 1 | C

### Dosbarth gwybodaeth: Safonol

Cyhoeddir y ddogfen hon ar gyfer y parti a'i chomisiynodd ac at ddibenion dynodedig sy'n gysylltiedig â'r prosiect a enwir uchod yn unig. Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu arni ac ni ddylai gael ei defnyddio at unrhyw ddiben arall.

Nid ydym yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am y canlyniadau os bydd unrhyw barti arall yn dibynnu ar y ddogfen hon, neu os yw'n cael ei defnyddio at unrhyw ddiben arall, neu os yw'n cynnwys unrhyw wall neu hepgoriad oherwydd gwall neu hepgoriad yn y data a roddir i ni gan bartïon eraill.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol ac eiddo deallusol perchenogol. Ni ddylid ei dangos i bartïon eraill heb ein caniatâd ni a'r parti a'i chomisiynodd

## Cynnwys


| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | | 1 |
| | 1.1 | Amcanion yr Adroddiad | 3 |
| | 1.2 | Cyfyngiadau | 3 |
| | 1.3 | Strwythur yr Adroddiad | 4 |
| 2 | Methodoleg | | 5 |
| | 2.1 | Cyflwyniad | 5 |
| | 2.2 | Methodoleg yr Astudiaeth | 5 |
| | 2.2.1 | Cam 1 – Adolygiad o Ddiffiniadau a Chwmpasu | 6 |
| | 2.2.2 | Cam 2 - Methodoleg Desg | 6 |
| | 2.2.3 | Cam 3 - Methodoleg yr Holiadur | 7 |
| | 2.2.4 | Cam 4 - Dilysu a Diweddaru | 8 |
| 3 | Adolygiad o Ddiffiniadau | | 9 |
| | 3.1 | Beth yw 'awdurdod cyhoeddus'? | 9 |
| | 3.2 | Beth yw 'penderfyniad'? | 10 |
| | 3.2.1 | A58(1) | 10 |
| | 3.2.2 | A58(3) | 11 |
| 4 | Canfyddiadau a Chamau Nesaf | | 13 |
| | 4.1 | Amlinelliad o'r canfyddiadau | 13 |
| | 4.2 | Beth sy'n digwydd nesaf? | 14 |
| 5 | Mapio'r Rhai sy'n Gwneud Penderfyniadau | | 16 |
| | 5.1 | Cyfoeth Naturiol Cymru | 17 |
| | 5.1.1 | Tîm Trwyddedu Morol CNC | 17 |
| | 5.1.2 | Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) – Cynghori a Rheoleiddio | 19 |
| | 5.2 | Gweinidogion Cymru | 26 |
| | 5.3 | Ystad y Goron | 34 |
| | 5.4 | Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol | 37 |
| | 5.5 | Awdurdod Olew a Nwy | 41 |
| | 5.6 | Awdurdodau Lleol yng Nghymru | 44 |
| | 5.7 | Yr Arolygiaeth Gynllunio | 47 |
| | 5.8 | Y Weinyddiaeth Amddiffyn | 51 |
| | 5.9 | Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu | 52 |

5.10 Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 54
5.11 Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau 56
5.12 Dŵr Cymru / Welsh Water 59
5.13 Trinity House 60
5.14 Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru 62
5.15 Awdurdodau Porthladd / Harbwr 63
5.16 Sefydliadau Eraill 65

A. Manylion y Sefydliadau y cysylltwyd â nhw 66

B. Templed yr Holiadur 69

C. E-bost a anfonwyd at Unigolion a Sefydliadau 76

D. Darnau o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 78

## Tablau

Tabl 5.1: Gwneud Penderfyniadau Trwyddedu Morol CNC 19
Tabl 5.2: Penderfyniadau Cynghori a Rheoleiddio CNC 20
Tabl 5.3: Penderfyniadau Gweinidogion Cymru 26
Tabl 5.4: Penderfyniadau Ystad y Goron 34
Tabl 5.5: Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol 38
Tabl 5.6: Penderfyniadau'r Awdurdod Olew a Nwy (OGA) 41
Tabl 5.7: Penderfyniadau Awdurdodau Lleol yng Nghymru 45
Tabl 5.8: Penderfyniadau'r Arolygiaeth Gynllunio 48
Tabl 5.9: Penderfyniadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) 51
Tabl 5.10: Penderfyniadau'r Ganolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (CEFAS) 52
Tabl 5.11: Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 54
Tabl 5.12: Penderfyniadau Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau 57
Tabl 5.13: Penderfyniadau Dŵr Cymru 59
Tabl 5.14: Penderfyniadau Trinity House 60
Tabl 5.15: Penderfyniadau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru 62
Tabl 5.16: Penderfyniadau Swyddfeydd Awdurdodau Porthladd / Harbwr 63

## Ffigurau

Ffigur 1.1: Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 2

# 1 Cyflwyniad

Mabwysiadwyd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru[1] (CMCC) ar 12 Tachwedd 2019. Dyma'r cynllun morol cyntaf i Gymru a bydd yn llywio datblygiad cynaliadwy o'r ardal forol drwy nodi sut y bydd cynigion yn cael eu hystyried gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Mae CMCC yn cwmpasu rhanbarthau glannau a môr mawr cynllun morol Cymru. Mae wedi'i baratoi a'i fabwysiadu o dan [2]Ddeddf Mynediad Morol ac Arfordirol (MaCAA) 2009[3] ac yn unol â Datganiad Polisi Morol (MPS) y DU. Bydd y CMCC yn cael ei ddefnyddio gan ymgeiswyr "...*wrth lunio cynigion a cheisio am drwyddedau. Dylai awdurdodau cyhoeddus eu defnyddio i'w helpu i wneud penderfyniadau a dylai eraill eu defnyddio i ddeall polisi Llywodraeth Cymru ar ddatblygu cynaliadwy yn nalgylch y Cynllun*[4]".

Mae Adran 58 o MaCAA 2009 sy'n rheoli cynllunio morol yn nodi y dylai awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru gymhwyso CMCC wrth wneud penderfyniadau sydd â'r potensial i effeithio ar Ardal Cynllun Morol Cymru. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus sy'n gwneud penderfyniadau awdurdodi a gorfodi wneud hynny yn unol â'r dogfennau polisi morol priodol sef y cynllun morol ar gyfer yr ardal a'r MPS.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith i gefnogi gweithredu CMCC. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n cysylltu â phob awdurdod cyhoeddus i gychwyn deialog er mwyn ei helpu i integreiddio CMCC yn ei phenderfyniadau. Er mwyn gwneud hynny, mae angen gwybodaeth gynhwysfawr arni am bwy yw'r awdurdodau cyhoeddus, pa benderfyniadau a wnânt, ac a ddylid gwneud y penderfyniadau hynny "gan roi sylw i" a58(3), neu "yn unol ag" a58(1), CMCC.

---

[1] Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 2019

[2] Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009

[3] Datganiad Polisi Morol y DU

[4] CMCC (2019) t2

**Ffigur 1.1: Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru**




Ffynhonnell: Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru Fel ar 29-01-20

## 1.1 Amcanion yr Adroddiad

Amcan y contract ymchwil hwn oedd mapio’r holl awdurdodau cyhoeddus sy’n gwneud penderfyniadau sy’n effeithio ar Ardal Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (Ffigur 1.1) a manylu ar ba benderfyniadau y maent yn eu gwneud.

Mae CMCC yn dod i rym yn bennaf drwy benderfyniadau a wneir gan awdurdodau cyhoeddus.

Roedd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i’r tasgau canlynol gael eu cyflawni:

1. Rhestr o’r holl awdurdodau cyhoeddus sy’n gwneud penderfyniadau sydd â’r potensial i effeithio ar ardal CMCC. Dylai’r rhestr gynnwys awdurdodau cyhoeddus y tu allan i Gymru y mae angen iddynt ystyried CMCC.
2. Rhestr fanwl o benderfyniadau (e.e. awdurdodiadau, gweithgarwch cyflawni neu gamau gweithredu polisi) a wnaed gan bob awdurdod cyhoeddus a allai effeithio ar ardal CMCC, gan gynnwys:
   - Math o weithgaredd: er enghraifft, gwneud penderfyniadau, creu polisi, cynghori ar y gweithgareddau hyn;
   - Manylion y gweithgaredd: beth yn union y mae’r awdurdodau cyhoeddus yn ei wneud;
   - Pa bolisi/polisïau penodol yn CMCC ddylai ddylanwadu ar y gweithgareddau hyn a syniad o amlder neu raddau (e.e. Uchel, Canolig, Isel); a
   - Deddfwriaeth berthnasol arall y mae awdurdodau cyhoeddus yn ei hystyried wrth ymgymryd â’r gweithgareddau rhestredig.

Diben y gwaith hwn yw casglu gwybodaeth sy’n galluogi Llywodraeth Cymru, yn rhinwedd ei swydd fel awdurdod cynllunio morol, i sicrhau ymgysylltiad â rhanddeiliaid â ffocws gyda’r awdurdodau cyhoeddus.

## 1.2 Cyfyngiadau

Dylid nodi nad yw Mott MacDonald wedi gofyn am unrhyw gyngor Cyfreithiol o ran dehongli darpariaethau MaCAA 2009. Fodd bynnag, daethpwyd i gytundeb â Llywodraeth Cymru ar yr hyn sy’n gyfystyr â ‘phenderfyniad’ o dan adran 58(3) o MaCAA 2009: bod llunio polisi yn ‘benderfyniad’, ond nad yw cyngor ymgynghorai yn ‘benderfyniad’. Ystyrir hyn yn fanylach yn Adran 3 yr adroddiad hwn.

Ar ddechrau’r prosiect, cytunwyd gyda Llywodraeth Cymru y byddai’n rhy gymhleth cynnwys arwydd o amlder neu raddau dylanwad polisi (e.e. Uchel, Canolig, Isel), gan y gall hyn amrywio o benderfyniad i benderfyniad a bydd yn dibynnu ar natur, er enghraifft, cais am drwydded neu gais cynllunio penodol.

Yn ogystal, gall y pwysau a roddir i bolisïau a gweithgareddau penodol amrywio o un unigolyn neu adran i'r llall.

Dylid nodi hefyd nad yw'r wybodaeth a dderbynnir drwy'r holiaduron yn gynrychioliadol o'r sefydliad cyfan; mae'n bosibl na fydd ond yn adlewyrchu gweithgareddau a chyfrifoldebau un maes neu adran o fewn y sefydliad hwnnw.

## 1.3 Strwythur yr Adroddiad

Mae'r adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Adran 2 – Methodoleg. Mae'r adran hon yn nodi'r dull a ddefnyddiwyd i gasglu gwybodaeth a chysylltu â sefydliadau;
- Adran 3 – Adolygiad o Ddiffiniadau. Nodir y diffiniadau o MaCAA 2009 a'r dehongliad a ddefnyddiwyd ar gyfer yr astudiaeth hon;
- Adran 4 – Canfyddiadau a'r Camau Nesaf. Crynhoir canfyddiadau'r astudiaeth; a chyflwynir ystyriaethau ar y camau nesaf;

  Adran 5 - Mapio'r Rhai sy'n Gwneud Penderfyniadau. Mae canlyniadau'r ymarfer casglu gwybodaeth wedi'u rhoi mewn tabl ar gyfer pob awdurdod cyhoeddus neu fath o awdurdod cyhoeddus; ac
- Atodiadau – nodir manylion y sefydliadau y cysylltwyd â hwy, yr holiadur, ac e-bost eglurhaol yn yr atodiadau.

# 2 Methodoleg

## 2.1 Cyflwyniad

Mae adran 58 o MaCAA 2009 yn nodi darpariaethau sy’n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw benderfyniad a wneir gan awdurdod cyhoeddus a allai effeithio ar yr ardal forol, naill ai’n gyfan gwbl neu unrhyw ran, fod naill ai yn unol ag a58(1); neu roi sylw i a58(3) y dogfennau polisi morol priodol (fel y’u diffinnir yn a59 o MaCAA 2009 fel yr MPS a CMCC), oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall.

## 2.2 Methodoleg yr Astudiaeth

Fel y nodir yn Adran 1 o’r Adroddiad hwn, roedd yr astudiaeth hon yn gofyn am ddau fath o brosesau casglu gwybodaeth. Y cam cyntaf oedd adolygiad o ddiffiniadau ac ymarfer cwmpasu.

Yn dilyn hyn, cynhaliwyd astudiaeth ddesg i nodi’r holl awdurdodau cyhoeddus perthnasol sy’n gwneud penderfyniadau sydd â’r potensial i effeithio ar ardal CMCC. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus y tu allan i Gymru y mae angen iddynt ystyried CMCC, ond dim ond y rhai â chyfrifoldeb a58(1) neu a58(3).

Roedd y trydydd cam yn cynnwys holiadur a anfonwyd at awdurdodau cyhoeddus i nodi’r canlynol:

- Rhestr fanwl o benderfyniadau (e.e. awdurdodiadau, gweithgarwch cyflawni neu gamau gweithredu polisi) a wnaed gan bob awdurdod cyhoeddus a allai effeithio ar ardal CMCC, gan gynnwys:
  - Math o weithgaredd: er enghraifft, gwneud penderfyniadau, creu polisi, cynghori ar y gweithgareddau hyn;
  - Manylion y gweithgaredd: beth yn union y mae’r awdurdodau cyhoeddus yn ei wneud;
  - Y polisi/polisïau allweddol yn CMCC y dylai’r gweithgareddau hyn gael eu dylanwadu gan; a
  - Deddfwriaeth berthnasol arall y mae awdurdodau cyhoeddus yn ei hystyried wrth ymgymryd â’r gweithgareddau rhestredig.

Roedd pedwerydd cam, y cam olaf, yn cynnwys derbyn sylwadau/cywiriadau ar fersiwn Mawrth 2020.

Amlinellir y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer pob proses yn Adrannau 2.2.1 a 2.2.4 isod.

### 2.2.1 Cam 1 – Adolygiad o Ddiffiniadau a Chwmpasu

Roedd Cam 1 yn golygu bod angen adolygu darpariaethau MaCAA 2009 er mwyn sicrhau bod y goblygiadau'n cael eu deall yn llawn. Ni cheisiwyd unrhyw gyngor cyfreithiol ar y dehongliad hwn, ond cytunwyd ar y canfyddiadau gyda'r Cleient. Cyflwynir y rhain yn Adran 3 yr adroddiad hwn.

### 2.2.2 Cam 2 - Methodoleg Desg

Cynhaliwyd astudiaeth ddesg drwy ymchwil ar-lein i ganfod pa awdurdodau cyhoeddus sy'n berthnasol i'r astudiaeth hon. Roedd hyn yn cynnwys pob awdurdod cyhoeddus sy'n gwneud penderfyniadau sydd â'r potensial i effeithio ar ardal CMCC, gan gynnwys y rhai y tu allan i Gymru.

Croeswiriwyd awdurdodau cyhoeddus yn Lloegr yn dilyn adolygiad o astudiaeth debyg a gynhaliwyd gan y Sefydliad Rheoli Morol[5] er mwyn sicrhau bod yr holl awdurdodau cyhoeddus perthnasol yn cael eu cynnwys yn yr astudiaeth hon.

Ar ôl cwblhau'r rhestr y cytunwyd arni o awdurdodau cyhoeddus, defnyddiwyd gwybodaeth sydd ar gael ar-lein i ganfod gweithgareddau a chyfrifoldebau pob awdurdod cyhoeddus. Arweiniodd hyn at ganlyniadau cyfyngedig, gan nad oes gan nifer o sefydliadau wybodaeth am eu rolau a'u cyfrifoldebau ar gael yn gyhoeddus.

Datblygwyd rhestr o gysylltiadau, yn seiliedig ar aelodau o'r Grŵp Penderfynwyr Cynllunio Morol (MPDMG) ac unigolion Llywodraeth Cymru a oedd wedi cytuno i rannu eu manylion cyswllt at ddibenion yr astudiaeth hon. Gan adeiladu ar hyn, daethpwyd o hyd i wybodaeth gyswllt ar gyfer unigolion sydd ar gael ar-lein. Mae'r rhestr lawn o gysylltiadau y cysylltwyd â hwy (heb yr wybodaeth gyswllt sensitif[6]) wedi'i chynnwys yn Nhabl A.1 yn Atodiad A. Oherwydd gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), nid yw'r rhestr cysylltiadau lawn wedi'i hatodi i'r adroddiad hwn a chaiff ei chyflwyno ar wahân i Lywodraeth Cymru.

Ymhlith yr unigolion o fewn sefydliadau y ceisiwyd eu canfod yr oedd Prif Swyddogion Cynllunio a Pholisi, Uwch Reolwyr neu Gynghorwyr Trwyddedu, Rheolwyr Porthladdoedd, Rheolwyr Ardal, arweinwyr Polisi, ac eraill sy'n gwneud penderfyniadau. Lle nad oedd modd dod o hyd i fanylion cyswllt unigolion yn y swyddi hyn ar-lein, canfuwyd blychau post a rhifau ffôn timau yn

---

[5] Sefydliad Rheoli Morol (MMO) 2019, Gwneud Penderfyniadau Allanol a Gweithredu Cynlluniau Morol (MMO1155)

[6] Er mwyn sicrhau bod yr astudiaeth yn cydymffurfio â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), storiwyd yr holl wybodaeth gyswllt ar gronfa ddata ddiogel ac ni roddwyd mynediad ati i staff y tu allan i dîm y prosiect.

gyhoeddus i ofyn am fanylion cyswllt yr unigolion perthnasol. Er mwyn sicrhau cynifer â phosib o ymatebion, a sicrhau bod yr holiadur yn cyrraedd y timau a'r unigolion cywir, anogwyd cysylltiadau hefyd i rannu'r holiadur ag adrannau eraill o fewn eu sefydliad sy'n gwneud penderfyniadau a allai effeithio ar CMCC.

Chwiliwyd hefyd am wybodaeth gyswllt ar gyfer pob awdurdod cyhoeddus ar-lein er mwyn galluogi'r holiadur i gael ei anfon at yr unigolion perthnasol. Yn ogystal, mynychodd tîm y prosiect gyfarfod MPDMG ar 19 Chwefror 2020 i hyrwyddo'r astudiaeth i'r awdurdodau cyhoeddus yn bresennol a chanfod cysylltiadau ychwanegol i gwblhau'r holiadur.

### 2.2.3 Cam 3 - Methodoleg yr Holiadur

Crëwyd holiadur gan ddefnyddio templed Microsoft Forms a addaswyd yn hawdd i gynnwys 19 o gwestiynau y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r holiadur i'w weld yn Atodiad B. Roedd yr holiadur ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Anfonwyd negeseuon e-bost at unigolion yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac mae copi ohonynt i'w weld yn Atodiad C.

Roedd y cysylltiadau yr anfonwyd dolen i'r holiadur atynt yn cynnwys y rhai a oedd eisoes wedi rhoi eu caniatâd i Lywodraeth Cymru eu bod yn hapus i rywun gysylltu â hwy, yn ogystal â'r rhai a gafwyd o'r chwiliad ar-lein a ddisgrifir yn Adran 2.2.2.

Anfonwyd e-bost cychwynnol gyda dolen i'r holiadur at 91 o unigolion ar 25 Chwefror 2020, ac mae copi ohono i'w weld yn Atodiad C. Anfonwyd e-byst dilynol at 71 o unigolion eraill yn dilyn y dyddiad hwn. Rhoddwyd dyddiad cau o 10 diwrnod i'r ymatebwyr i gwblhau'r holiadur. Anfonwyd e-bost atgoffa ar 6 Mawrth 2020. Er mwyn ymdrin â chymaint â phosibl o feysydd gweithgarwch posibl, gofynnwyd i bob cyswllt drosglwyddo'r holiadur i unigolion perthnasol yn ei sefydliad. Gwnaed galwadau ffôn ac anfonwyd e-byst ychwanegol at unigolion nad oeddent wedi ymateb gan Mott MacDonald a Llywodraeth Cymru o 13 Mawrth 2020.

Cafodd yr wybodaeth a dderbyniwyd o'r holiaduron a'r ymatebion i'r e-bost ei chynnwys mewn cyfres o dablau yn Adran 5 yr adroddiad hwn. Lle yr ystyriwyd bod angen, ar ôl derbyn ymateb unigolyn, ffoniwyd y rhai a oedd wedi cwblhau'r holiadur i bennu'n gywir y cyfrifoldebau a'r gweithgareddau a oedd yn berthnasol ar gyfer yr astudiaeth hon.

*Dylid nodi nad yw'r wybodaeth a dderbynnir drwy'r holiaduron o reidrwydd yn gynrychioliadol o'r sefydliad cyfan; mae'n bosibl na fydd ond yn adlewyrchu gweithgareddau a chyfrifoldebau un maes neu adran o fewn y sefydliad hwnnw. Yn ogystal, gall y pwysau a roddir i bolisïau a gweithgareddau penodol amrywio o un unigolyn neu adran i'r llall.*

Roedd hi'n amlwg bod rhywfaint o betruster ymhlith unigolion mewn rhai sefydliadau i lenwi'r holiadur, rhag ofn y canfuwyd bod eu hymateb yn anghywir, yn anghyflawn neu fod eu sefydliad yn cael ei ddal i gyfrif am yr wybodaeth a ddarparwyd ganddynt maes o law. Felly, ystyriwyd ei bod yn fuddiol i bob unigolyn a roddodd ymateb gael y tabl perthnasol yn Adran 5 i gadarnhau'r wybodaeth cyn i'r adroddiad hwn gael ei ddosbarthu'n ehangach.

### 2.2.4 Cam 4 - Dilysu a Diweddaru

Derbyniodd awdurdodau cyhoeddus yr adroddiad ym mis Ebrill 2020 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Grŵp Penderfynwyr Cynllunio Morol (MPDMG) wirio'r testun cyn ei gyhoeddi. Yn dilyn hynny, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at bob awdurdod cyhoeddus ym mis Mawrth ac Ebrill 2021 yn amgáu ei destun penodol ac yn gofyn am sylwadau / cywiriadau.

Ymatebodd y sefydliadau canlynol naill ai gyda sylwadau neu gyda chais am ddiwygiad:

- MCGA;
- Y Weinyddiaeth Amddiffyn;
- OGA;
- Cynllunio Llywodraeth Cymru a Thrwyddedu Llywodraeth Cymru;
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro;
- Cefas (Arolygiaeth Iechyd Pysgod);
- PINS;
- Trinity House; a
- CNC (ar ran Trwyddedu/Cynghori a thrwyddedu morol).

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y cyflwyniadau ac wedi gwneud newidiadau fel y bo'n briodol. Mae Mott MacDonald wedi ymgorffori'r newidiadau hynny yn y ddogfen hon (dyddiedig 23 Awst 2021). Llywodraeth Cymru yn unig sy'n gyfrifol am unrhyw sylwadau, cywiriad neu hepgoriad sy'n codi ers mis Ebrill 2020. Nid yw Tabl A.1 yn Atodiad A wedi'i ddiwygio ar gyfer unrhyw wybodaeth a dderbyniwyd ar ôl mis Ebrill 2020.

# 3 Adolygiad o Ddiffiniadau

Mae'n angenrheidiol yn gyntaf diffinio rhai o'r termau allweddol y cyfeirir atynt yn MaCAA 2009.

Mae darnau perthnasol o MaCAA 2009 wedi'u cynnwys yn Atodiad D.

## 3.1 Beth yw 'awdurdod cyhoeddus'?

Mae adrannau 58(1) a (3) o MaCAA 2009 yn gymwys i "awdurdodau cyhoeddus".

Mae adran 59 o MaCAA 2009 yn diffinio'r dogfennau polisi morol priodol ('appropriate marine policy documents') y cyfeirir atynt yn a58.

Mae adran 59(3) yn datgan, i'r graddau y mae'r penderfyniad yn ymwneud ag ardal yn y cynllun morol, fod unrhyw gynllun morol sy'n weithredol ar gyfer yr ardal honno yn ddogfen polisi morol briodol.

Mae adran 59(4) (4) yn datgan bod cynllun morol ar gyfer ardal mewn rhanbarth cynllunio morol datganoledig yn ddogfen polisi morol briodol mewn perthynas ag arfer swyddogaethau a gedwir gan awdurdod cyhoeddus dim ond: (a) os yw'n cynnwys datganiad o dan adran 51(8) ei bod yn cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â swyddogaethau a gadwyd, (b) os yw wedi ei mabwysiadu gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol o dan baragraff 15(2) o Atodlen 6, ac (c) os cafodd ei pharatoi a'i mabwysiadu ar adeg pan oedd MPS mewn grym a oedd yn llywodraethu cynllunio morol ar gyfer y rhanbarth cynllunio morol.

Mae gweddill a59 yn nodi o dan ba amgylchiadau y mae MPS yn ddogfen briodol ar gyfer mathau penodol o awdurdodau cyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw'n ymhelaethu ar y term 'awdurdodau cyhoeddus' ('public authority') mewn perthynas â chynlluniau morol.

Diffinnir y term 'public authority' yn a322 o MaCAA 2009 fel a ganlyn:

"public authority" means any of the following—

(a) a Minister of the Crown;
(b) a public body;
(c) a public office holder;

"public body" includes—

(a) a government department;
(b) a Northern Ireland department;
(c) a local authority;

(d) a local planning authority;
(e) a statutory undertaker.

“statutory undertaker” means a person who is, or is deemed to be, a statutory undertaker for the purposes of any provision of Part 11 of the Town and Country Planning Act 1990.

At ddibenion yr astudiaeth hon dim ond awdurdodau cyhoeddus sy’n gwneud penderfyniadau yn unol â CMCC neu gan roi sylw i CMCC sydd wedi’u cynnwys.

## 3.2 Beth yw ‘penderfyniad’?

Fel y nodir uchod, mae adran 58 o MaCAA 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw benderfyniad a wneir gan awdurdod cyhoeddus a allai effeithio ar yr ardal forol, naill ai’n gyfan gwbl neu unrhyw ran, fod naill ai yn unol ag a58(1); neu roi sylw i a58(3) yn y dogfennau polisi morol priodol, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Ystyrir a58(1) ac a58(3) ymhellach yn Adrannau 3.2.1 a 3.2.2.

### 3.2.1 A58(1)

Mae adran 58(1) yn nodi bod rhaid i awdurdodau cyhoeddus wneud unrhyw benderfyniad awdurdodi neu orfodi yn unol â’r dogfennau polisi morol priodol, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi’n wahanol.

Mae adran 58(4) yn diffinio ‘penderfyniad awdurdodi neu orfodi’ (‘authorisation or enforcement decision’) fel penderfyniad ar unrhyw gais am awdurdodiad i wneud unrhyw weithred sy’n effeithio ar, neu a allai effeithio ar, ardal forol gyfan neu unrhyw ran o ardal forol y DU; unrhyw benderfyniad sy’n ymwneud ag unrhyw amodau awdurdodiad o’r fath; unrhyw benderfyniad ynghylch ymestyn, disodli, amrywio, dirymu neu dynnu’n ôl unrhyw awdurdodiad o’r fath neu unrhyw amodau o’r fath; unrhyw benderfyniad sy’n ymwneud â gorfodi unrhyw awdurdodiad o’r fath neu unrhyw amodau o’r fath; unrhyw benderfyniad sy’n ymwneud â gorfodi unrhyw waharddiad neu gyfyngiad ar wneud unrhyw weithred sy’n ymwneud â phenderfynu ar unrhyw gais am awdurdodiad.

Dylid nodi nad yw’r diffiniad hwn yn cynnwys unrhyw benderfyniad ar gais am orchymyn sy’n rhoi caniatâd datblygu o dan Ddeddf Cynllunio 2008. Bernir bod penderfyniad o’r fath yn dod o dan adran 58(3).

Diffinnir awdurdodiad (‘authorisation’) yn a58(6) fel ‘unrhyw gymeradwyaeth, cadarnhad, caniatâd, trwydded, caniatâd neu awdurdodiad arall (sut bynnag y’i disgrifir), boed yn arbennig neu’n gyffredinol.’

Ystyrir bod penderfyniadau a58(1) wedi'u diffinio'n weddol dda gan MaCAA 2009 a dylai'r 'awdurdodau cyhoeddus' perthnasol sy'n gwneud penderfyniadau o'r fath fod yn weddol syml i'w hadnabod.

At ddibenion yr astudiaeth hon, enghraifft o benderfyniad a 58(1) a wnaed 'yn unol' â CMCC fyddai darparu penderfyniadau awdurdodi a/neu orfodi ar drwyddedu morol a chydsynio neu wneud penderfyniadau ar apeliadau.

### 3.2.2 A58(3)

Mae adran 58(3) yn nodi bod rhaid i awdurdod cyhoeddus roi sylw i'r dogfennau polisi morol priodol wrth wneud unrhyw benderfyniad: (a) sy'n ymwneud ag arfer unrhyw swyddogaeth a all effeithio ar ardal forol y DU yn ei chyfanrwydd neu ar unrhyw ran ohoni, ond (b) nad yw'n benderfyniad awdurdodi neu orfodi.

Nid yw MaCAA 2009 yn darparu unrhyw ddiffiniadau neu ganllawiau pellach mewn perthynas â phenderfyniadau a58(3), ac mae goblygiadau'r geiriad yn golygu y gallai ystod eang iawn o benderfyniadau ddod o fewn yr adran hon. Cyn belled â bod y penderfyniad yn cael ei wneud gan 'awdurdod cyhoeddus' sy'n arfer ei swyddogaeth, mae potensial i benderfyniadau gael eu gwneud gan awdurdodau cyhoeddus ar fater mewndirol sydd â'r potensial i effeithio ar ran o ardal CMCC (mae hyn yn wir am y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a58(1) ac a58(3).

Yn absenoldeb unrhyw ddiffiniadau yn MaCAA 2009, mae angen ystyried y mathau o weithgareddau gwneud penderfyniadau sy'n berthnasol. At ddibenion yr astudiaeth hon, enghraifft o benderfyniad a58(3) a wnaed 'gan roi sylw i' CMCC fyddai i awdurdod cyhoeddus roi sylw i CMCC wrth fabwysiadu cynlluniau a pholisïau (ceir enghreifftiau manwl pellach ar ddiwedd yr Adran hon).

Mae adrannau'r Llywodraeth ac Awdurdodau Lleol yn mynd drwy broses o wneud penderfyniadau i gyhoeddi polisi newydd a byddant yn rhoi sylw i bolisïau perthnasol eraill yn y broses honno. Felly, os oes potensial i ardal cynllun morol gael ei heffeithio, byddai disgwyl i'r adran neu'r awdurdod hwnnw roi sylw i CMCC wrth ddatblygu'r polisi, felly dylid ystyried bod y penderfyniad i fabwysiadu neu gyhoeddi polisi yn benderfyniad a58(3).

Pan fydd awdurdod cyhoeddus yn ymgymryd â rôl ymgynghorai, er enghraifft, yn rhoi cyngor i awdurdod cyhoeddus arall sy'n gwneud penderfyniad ar drwydded neu gais. I rai ymgyngoreion, gellid rhoi cyngor o'r fath drwy gyfnewid llythyr neu femo gan unigolyn; mewn sefydliadau eraill, gall y broses o ddarparu cyngor o'r fath fod drwy broses gwneud penderfyniadau fwy ffurfiol. Yn y pen draw, mae'r ymgynghorai hwnnw'n cyflawni rôl gynghori i sefydliad arall sef yr awdurdod cyhoeddus mewn gwirionedd yn gwneud penderfyniad ar gais. At ddibenion yr astudiaeth hon, ystyrir felly na ddylid ystyried camau gweithredu o'r

fath yn ‘benderfyniadau’ a58(3) fel rheol, ond y bydd angen i bob awdurdod cyhoeddus ei hun ystyried effaith ei gyngor.

Bydd amryw o sefydliadau a ddylai fod yn defnyddio CMCC i lywio’r camau a gymerant sydd naill ai ddim yn ‘awdurdodau cyhoeddus’ (er enghraifft, ymgeisydd neu ddatblygwr neu wrthwynebydd i gais cynllunio) ac yn ‘awdurdodau cyhoeddus’ nad ydynt yn gwneud ‘penderfyniad’ (er enghraifft, yr enghraifft ymgynghorai uchod), ond maent i gyd yn defnyddio CMCC i ffurfio barn neu i roi cyngor h.y. maent yn ‘ddefnyddwyr’ CMCC, ond nid yw a58(1) a 58(3) yn berthnasol iddynt. Am nad yw a58(1) ac a58(3) yn gymwys, ystyrir bod y senarios hyn y tu allan i gwmpas yr astudiaeth hon hefyd.

Ystyrir at ddibenion y prosiect hwn nad yw rhoi cyngor i awdurdod cyhoeddus arall sy’n gwneud penderfyniad a58(1) yn benderfyniad a58(3).

Mae enghreifftiau yr ystyrir eu bod yn benderfyniadau a58(3) yn cynnwys:

- Gwneud Gorchymyn Harbwr;
- Mesurau rheoli e.e. newid rhwng dibenion angori harbwr ar gais yr harbwrfeistr;
- Rheoli adnoddau morol yn strategol e.e. newid terfynau tunelli agregau, neu darged cynhyrchu ynni adnewyddadwy;
- Rheoli pysgodfeydd e.e. newid maint glanio lleiaf cregyn moch neu gregyn gleision, agor pysgodfa gocos;
- Llunio polisïau e.e. dynodi Parth Perygl Nitradau neu benderfyniad amddiffyn yr arfordir – cynnal y llinell neu encilio, dyframaeth - cyflwyno wystrys Japan anfrodorol;
- Dynodiad cadwraeth natur e.e. dynodi neu adolygu Ardaloedd Morol Gwarchodedig neu unrhyw fesurau rheoli MPA; a
- Phenderfyniadau ariannu e.e. cymorth grant i ffermydd pysgod neu ddatblygiad arfordirol neu weithgarwch twristiaeth neu hamdden.

O ystyried yr amrywiaeth o "benderfyniadau" sy’n bosibl, mae’r uchod ymhell o fod yn rhestr gynhwysfawr.

# 4 Canfyddiadau a Chamau Nesaf

## 4.1 Amlinelliad o’r canfyddiadau

Ar ôl dosbarthu’r holiadur, derbyniwyd 55 o ymatebion (hyd at 17:00 24 Mawrth 2020). Yn ogystal, derbyniwyd nifer o ymatebion drwy e-bost lle cadarnhaodd unigolion nad oeddent yn gwneud unrhyw benderfyniadau a58(1) neu a58(3). Mae prif ganlyniadau’r ymarfer mapio rhanddeiliaid wedi’u cynnwys yn Nhablau 5.1 i 5.15 ym Mhennod 5 yr adroddiad hwn.

Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebion yn cynnwys manylion cyffredinol ynghylch ble maent yn gweithredu "yn unol â" neu "gan roi sylw i" CMCC, ond nid oeddent yn rhestru’r union bolisïau CMCC y mae eu sefydliad yn ymwneud â nhw. Lle darparwyd polisïau CMCC, tynnwyd sylw at y rhain yn Adran 5. Lle na ddarparwyd polisïau CMCC, defnyddiwyd crebwyll proffesiynol i bennu polisïau perthnasol.

Mae paragraff 27 o CMCC yn nodi "Dylai pob cynnig, penderfyniad awdurdodi a phenderfyniad gorfodi ddefnyddio’r polisïau sydd yn y Cynllun hwn wrth ddylunio prosiect, i gymhwyso’r cynnig ac wrth wneud penderfyniadau cysylltiol. Yr unig eithriadau yw os bydd naratif y polisi cysylltiedig y Cynllun neu ddogfennau cynllunio atodol yn datgan nad yw’r polisi’n gymwys neu fod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu’n wahanol”. Oherwydd natur gyffredinol y manylion gwneud penderfyniadau a ddarparwyd, nid ydym ond wedi gallu rhoi syniad o’r polisïau allweddol tebygol.

Roedd llawer o’r ymatebion yn categoreiddio gweithgareddau gwneud penderfyniadau fel rhai a oedd yn cael eu cynnal o dan a58(1) neu a58(3), fodd bynnag, mewn rhai achosion roedd hyn yn groes i’r diffiniadau a nodir yn Adran 3.2 o’r Adroddiad hwn. Mewn achosion o’r fath, mae colofn olaf y Tablau yn Adran 5 yr Adroddiad hwn wedi’i diweddaru i adlewyrchu’r diffiniadau a58(1) neu a58(3) a nodir yn gynharach yn yr Adroddiad.

Tynnodd yr astudiaeth sylw hefyd at y ffaith nad oedd nifer fach o unigolion neu sefydliadau yn ymwybodol bod CMCC wedi’i fabwysiadu. Felly, roedd yr holiadur hefyd yn ffordd gadarnhaol o estyn allan at a hyrwyddo CMCC i awdurdodau cyhoeddus a ddylai fod yn rhyngweithio â’r Cynllun eisoes.

O’r wybodaeth a gyflwynir yn llawn ym Mhennod 5 gellir llunio’r canfyddiadau a’r casgliadau canlynol:

- Ym mwyafrif llethol yr achosion, dim ond un ymateb a gafwyd fesul sefydliad (mae Tabl A.1 yn Atodiad A yn rhoi manylion nifer yr ymatebion fesul sefydliad). Gall hyn olygu bod yr wybodaeth yn y tablau yn Adran 5

wedi'u sgiwio ychydig. Os oedd gwybodaeth ar gael ar-lein, ychwanegwyd at yr ymatebion hyn. Felly, efallai y bydd gweithgareddau gwneud penderfyniadau ychwanegol yn digwydd nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr ymarfer hwn;

- Daeth ymatebion gan Awdurdodau Lleol yn bennaf gan unigolion mewn rôl gynllunio neu adran gynllunio ac felly roedd yr ymatebion yn canolbwyntio ar gynllunio. Mae hyn yn rhannol yn adlewyrchiad o'r cysylltiadau y cysylltwyd â nhw i ateb yr holiadur;
- Roedd ymatebion gan unigolion o Awdurdodau Lleol yn gyson â'i gilydd ar y cyfan;
- Roedd ymatebion gan unigolion o Awdurdodau Porthladdoedd a Harbyrau yn gyson â'i gilydd ar y cyfan hefyd;
- Ar gyfer y rhan fwyaf o'r ymatebion a ddaeth i law, roedd y math o benderfyniadau y mae awdurdodau cyhoeddus yn eu gwneud yn debyg ac mae awdurdodau cyhoeddus yn defnyddio'r cynllun mewn ffordd debyg;
- Nid oedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau cyhoeddus yn rhestru polisïau a oedd yn berthnasol i'w penderfyniadau o fewn eu hymateb. Gall hyn fod oherwydd nad yw awdurdodau cyhoeddus yn hyderus eto ynghylch pa bolisïau y maent yn rhyngweithio â nhw eto;
- Nid oedd nifer fach o unigolion yn ymwybodol bod CMCC wedi'i gyhoeddi; ac
- Roedd yr ymatebion a gafwyd yn cael eu dosbarthu'n dda ar y cyfan rhwng y llywodraeth, Awdurdodau Lleol ac awdurdodau cyhoeddus ehangach eraill.

## 4.2 Beth sy'n digwydd nesaf?

Lle y bo'n briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r wybodaeth yn yr adroddiad, y tablau cryno a'r rhestr cysylltiadau i ymgysylltu'n helaethach ag unigolion / sefydliadau i ehangu ymhellach ar yr wybodaeth a dderbyniwyd hyd yma a gwella dealltwriaeth awdurdodau cyhoeddus o sut mae awdurdodau cyhoeddus yn defnyddio CMCC wrth wneud penderfyniadau. Gallai hyn gynnwys dod o hyd i fwy o wybodaeth am y gweithgareddau gwneud penderfyniadau a hefyd cadarnhau pa bolisïau CMCC allweddol sy'n berthnasol i'r penderfyniadau hynny. Mae'r astudiaeth yn fan cychwyn ar gyfer trafodaethau o'r fath, o safbwynt Llywodraeth Cymru ac o safbwynt y sawl sy'n gwneud y penderfyniad ac mae hefyd yn helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyflawni eu gofynion deddfwriaethol o ran CMCC.

Roedd hi'n amlwg bod rhywfaint o betruster ymhlith unigolion penodol i lenwi'r holiadur yn llawn, oherwydd y gallai eu hymateb gael ei ganfod i fod yn anghywir, yn anghyflawn neu fod eu sefydliad yn cael ei ddal i gyfrif am yr

wybodaeth a ddarparwyd ganddynt maes o law. Lle'r oedd diffyg manylion, ategwyd hyn gan ymchwil ddesg. Gall Llywodraeth Cymru ystyried gwirio ymhellach yr ymatebion a gafwyd mewn cyfathrebu dilynol, i gadarnhau bod y dehongliad terfynol ac unrhyw sylwebaeth atodol yn gywir.

Ystyrir bod yr ymatebion i'r holiadur yn seiliedig ar farn broffesiynol ar ran yr unigolyn neu'r tîm ym mhob sefydliad. Ychydig iawn o ymatebion, os o gwbl, fydd wedi'u gwirio'n gyfreithiol, felly argymhellir cynnal archwiliad cyfreithiol o'r ymatebion o'i gymharu â'r gofynion yn MaCAA 2009 cyn dechrau ar unrhyw waith dilynol pellach.

Argymhellir hefyd fod canlyniadau'r ymarfer hwn yn cael eu lledaenu drwy gynifer o sianelau allanol â phosibl, megis fforymau, gweithdai a chynadleddau. Fel rhan o'r broses honno, gallai fod o fudd i Lywodraeth Cymru gynorthwyo sefydliadau yn ymarferol drwy ddefnyddio astudiaethau achos o wneud penderfyniadau gan ddefnyddio CMCC ar lefel cynllun a phrosiect mewn gweithdai wedi'u targedu at sectorau penodol, yn dilyn yr ymarferion a gynhaliwyd yn flaenorol fel rhan o'r astudiaeth achos[7] [8] [9]. Byddai hyn yn hyrwyddo CMCC i awdurdodau cyhoeddus ychwanegol nad ydynt o bosibl yn ymwybodol o hyd ei fod wedi'i fabwysiadu ac yn parhau â momentwm yr ymarfer hwn.

[7] Mott MacDonald (2019) Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru: Adroddiad Cymhwyso - Astudiaeth Achos 2: Cynllun Arfordirol heb EIA, Mawrth 2019

[8] Mott MacDonald (2019) Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru: Adroddiad Cymhwyso - Astudiaeth Achos 3a: Cynllun Arfordirol ag EIA, Mawrth 2019

[9] Mott MacDonald (2019) Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru: Adroddiad Cymhwyso - Astudiaeth Achos 3b: Cynllun EIA DCO, Mawrth 2019

# 5 Mapio’r Rhai sy’n Gwneud Penderfyniadau

Mae Tablau 5.1 i 5.16 isod yn dangos canlyniadau’r ymarfer mapio rhanddeiliaid hwn.

Mae awdurdodau cyhoeddus wedi’u grwpio’n gategorïau lle bo hynny’n berthnasol, er enghraifft mae pob Awdurdod Lleol wedi’i gyfuno’n un tabl gan fod yr ymatebion a gafwyd yn gyson â’i gilydd.

Mae’r golofn ‘Thema Gwneud Penderfyniadau’ hefyd wedi’i grwpio lle bo hynny’n berthnasol, er enghraifft: gorfodi, cydsynio, polisi a chyllid. Yna caiff gwybodaeth ychwanegol am y mathau o benderfyniadau a wneir ym mhob thema ei chadarnhau yn y golofn ‘Manylion Gweithgaredd’. Gwybodaeth a luniwyd gan Mott MacDonald yw’r testun du yn y tablau. Mae pob lliw heblaw du yn adlewyrchu gwybodaeth a ddarparwyd gan unigolion o’r sefydliad hwnnw. Cadarnheir y manylion yn y testun cyn pob tabl.

Mae’r golofn ‘Polisïau CMCC Allweddol’ yn rhestru’r polisïau allweddol y mae penderfyniadau’n debygol o gael eu dylanwadu ganddynt. Mewn rhai achosion, mae’r rhain wedi’u darparu ar ymatebion yr holiadur, ond mewn llawer o achosion, mae Mott MacDonald wedi gwneud tybiaethau ynghylch pa rai sy’n debygol o fod yn fwyaf perthnasol. Neilltuwyd polisïau mewn ffont du gan Mott MacDonald gan ddefnyddio barn orau broffesiynol. Mae unrhyw bolisïau a ddarparwyd gan awdurdodau cyhoeddus wedi’u codio â lliw i wneud hyn yn glir. Rhaid nodi nad yw’r rhestr hon o bolisïau yn cynnwys pob un dim.

## 5.1 Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw'r Corff mwyaf a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Fe'i ffurfiwyd yn 2013, gan ysgwyddo i raddau helaeth swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru.

Rolau a chyfrifoldebau cyffredinol CNC yw bod yn gynghorydd, rheoleiddiwr, dynodwr safleoedd ac ymgynghorai statudol, ymatebwr i ddigwyddiadau amgylcheddol, rheolwr safleoedd ac eiddo, casglwr tystiolaeth a phartner / addysgwr / galluogwr.

Mewn perthynas â datblygiadau morol, mae gan CNC ddwy brif swyddogaeth:

- Fel awdurdod trwyddedu morol (sy'n gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru); ac
- Fel cynghorydd ac ymgynghorai statudol morol.

Mae'r wybodaeth yn y tabl hwn yn gyfuniad o ymchwil ddesg ac ymatebion a dderbyniwyd drwy'r holiadur gan y Tîm Trwyddedu Morol a'r Tîm Dulliau Rheoleiddio. Hefyd, nododd yr ymchwil ddesg weithgareddau cynghori, gan gynnwys cynghorydd i Lywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol am faterion yn ymwneud â'r amgylchedd a'i adnoddau naturiol ac ymgynghorai statudol i geisiadau cynllunio. Fodd bynnag, fel y diffinnir yn Adran 3.2, at ddibenion yr astudiaeth hon, ni ystyrir bod gweithgareddau o'r fath yn benderfyniadau a58(1) nac yn benderfyniadau 58(3) gan mwyaf. Mae * ar ôl y testun yn dangos ymatebion a gafwyd gan y Gwasanaethau Trwyddedu yn y Tîm Trwyddedu Morol (MLT). Mae † ar ôl y testun yn dangos ymatebion gan y Tîm Ymatebion Rheoliadol.

### 5.1.1 Tîm Trwyddedu Morol CNC

Mae llawer o weithgareddau yn yr ardal forol yn gofyn am drwydded forol fel y'i sefydlwyd gan a66, Rhan 4 o MaCAA 2009 ar gyfer ardal y môr sy'n ymestyn tua'r môr o Benllanw Cymedrig y Gorlanw (MHWS) i'r EEZ. Rhanbarth y glannau yw MHWS i 12 nm, a'r rhanbarth môr mawr yw o 12nm i EEZ.

Nodir eithriadau i weithgareddau trwyddedadwy morol yn MCAA Rhan 4, Pennod 2 neu fel y'u nodir yng Ngorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011.

Gweinidogion Cymru yw’r Awdurdod Trwyddedu a’r Awdurdod Gorfodi (a115). Fodd bynnag, dirprwywyd y swyddogaeth trwyddedu morol yng Nghymru i Dîm Trwyddedu Morol CNC drwy Orchymyn Trwyddedu Morol (Dirprwyo Swyddogaethau) (Cymru) 2013 a Gorchymyn Trwyddedu Morol (Dirprwyo Swyddogaethau) (Cymru) 2017.

Er bod Tîm Trwyddedu Morol CNC yn gweinyddu’r system trwyddedu morol ar ran Gweinidogion Cymru (ac felly wedi’u cynnwys yma), cyfrifoldeb swyddogion Gorfodi Morol Llywodraeth Cymru yw gorfodi trwyddedu morol a chyfrifoldeb Gweinidogion Cymru yw apeliadau (gweler isod). Yn ymarferol, yr Arolygiaeth Gynllunio sy’n ymdrin ag apeliadau yn erbyn penderfyniad trwydded forol.

Yng Nghymru, nid yw darpariaeth Deddf Cynllunio 2008 ar gyfer dyfarnu Trwydded Forol fel rhan o Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) yn gymwys. O’r herwydd, mae’n ofynnol hefyd i ymgeiswyr am Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol gael trwydded forol gan Dîm Trwyddedu Morol CNC. Bydd CMCC yn cael ei ystyried yn y broses o benderfynu ar drwydded.

Mae Tîm Trwyddedu Morol CNC yn awdurdod cymwys ar gyfer Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) sy’n gysylltiedig â thrwydded forol – gweler adran 4.

Mae angen trwydded forol ar gyfer y gweithgareddau canlynol:

- Dyddodion yn y môr, ar wely’r môr neu oddi tano;
- I suddo cwch/llong;
- Adeiladu, newid neu wella gwaith yn y môr a thros, ar neu o dan wely’r môr;
- Tynnu sylwedd neu wrthrych o wely’r môr;
- Carthu (p’un a yw’r gweithgaredd yn cynnwys gwaredu ai peidio);
- Dyddodi neu ddefnyddio unrhyw sylweddau neu eitemau ffrwydrol; a
- Llosgi unrhyw sylwedd neu wrthrych.

**Tabl 5.1: Gwneud Penderfyniadau Trwyddedu Morol CNC**

| Thema Gwneud Penderfyniadau | Manylion y Gweithgaredd | Polisïau CMCC Allweddol[10] | Deddfwriaeth Arall | MaCAA |
|---|---|---|---|---|
| Trwyddedu | Mae CNC yn gwneud penderfyniadau ac yn cyhoeddi trwyddedau morol (gydag amodau) ar gyfer rhanbarthau'r glannau a'r môr mawr a ddirprwyir gan Weinidogion Cymru. | GEN_01, GEN_02, SOC_03, SOC_07, SOC_08, SOC_09, SOC_10, SOC_11, ENV_01, ENV_02, ENV_05, ENV_06, ENV_07, GOV_01 | Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 | 58(1) |

### 5.1.2 Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) – Cynghori a Rheoleiddio

CNC yw Cynghorydd Cadwraeth Natur Statudol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ar gyfer dyfroedd glannau Cymru allan i 12nm. Yn ogystal â bod yn gynghorydd ynghylch materion sy'n ymwneud â'r amgylchedd a'i adnoddau naturiol; mae gan CNC swyddogaethau rheoleiddio a rheoli ar y tir ac ar y môr.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn nodi diben statudol CNC a sefydlir darpariaethau penodol gan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 a Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013. Mae CNC yn derbyn llythyr cylch gwaith sy'n nodi'r hyn y mae Llywodraeth Cymru am i CNC ei gyflawni yn ystod pob blwyddyn ariannol.

Yn ogystal â'i rôl o ran trwyddedu morol, mae CNC yn ymgymryd â gweithgareddau rheoleiddio ar draws y tir a'r môr. Mae'r rhain yn cynnwys diwydiant (e.e. gwastraff, sylweddau ymbelydrol); ardaloedd a rhywogaethau gwarchodedig (e.e. cydsyniadau SoDdGA, trwyddedu rhywogaethau a warchodir a hawliau tramwy) ac adnoddau dŵr, gollyngiadau a rheoli

[10] Nid oedd unrhyw ymatebion i'r holiadur gan CNC yn rhestru polisïau perthnasol CMCC. Rhagdybiaethau'r awduron eu hunain yw'r holl bolisïau a restrir yma.

llifogydd. Caiff ceisiadau eu hasesu a rhoddir trwyddedau fel sy'n briodol; a chaiff cydymffurfiaeth ei hasesu yn erbyn y rhain a chaiff chamau gorfodi eu cymryd lle bo angen.

Mae CNC hefyd yn ymgymryd â gweithgareddau rheoli amrywiol megis rheoli pysgodfeydd cocos masnachol, pysgod mudol a physgota hamdden ac mae'n awdurdod mordwyo ar gyfer afon Dyfrdwy.

Mae CNC yn Ymgynghorai Statudol ar drwyddedau morol neu fathau eraill o ganiatâd cynllunio a'r rheoleiddiwr ac awdurdod priodol ar gyfer prosiectau EIA ac HRA morol. Mae CNC yn awdurdod cymwys ar gyfer swyddogaethau cynghori a swyddogaethau rheoleiddio Corff Cadwraeth Natur Statudol (SNCB).

